Lgbc8m

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD IAU 27 TACHWEDD 2003 YN NHŶ CARADOG, PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd 7 Hydref 2003.

1.1 Cytunwyd ar y rhain

2. Materion yn Codi.

2.1 Safle ar gais Cyfeiriadau o ran yr Adolygiad Arfaethedig rhwng Rhan o'r Ffin rhwng Bracla a Choety Uwch ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

2.1.1 **Nodwyd** yr hysbyswyd y Comisiynwyr, mewn cyfarfod rhwng y Comisiynwyr a'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, bod gwaith papur ynglŷn â chais y Comisiwn gyda Chyfreithwyr y Cynulliad ar hyn o bryd.

2.2 Adolygiad o Ran o'r Ffin rhwng Sir Ceredigion a Sir Benfro yn ardal Cilgerran

2.2.1 **Cytunwyd** y caiff y safle presennol o ran yr Adolygiad hwn, gan gynnwys yr amserlen, ei archwilio yn y cyfarfod nesaf.

3. Adolygiad o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Drafft yr Adroddiad Terfynol.

3.1 Yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a thrafodaeth ddilynol ynglŷn â fformat adroddiadau'r Comisiwn, **cytunwyd** i ailddrafftio'r adroddiad hwn gan ddefnyddio'r fformat diwygiedig, gan roi mwy o ddibyniaeth ar atodiadau i gynnal y wybodaeth gefnogol a chanolbwyntio ar yr asesu a'r penderfyniadau ym mhrif gorff yr adroddiad.

3.2 **Cytunwyd ymhellach** y dylid ailysgrifennu adroddiad terfynol yr adroddiad uchod yn y fformat diwygiedig, ac y dylai'r Asesiad roi mwy o bwyslais ar yr agweddau hynny, o wasanaethau lywodraeth leol gyfleus ac effeithiol, a ddylanwadodd ar y Comisiwn o ran eu hargymhellion ar gyfer newid.

3.3 Dylai'r Comisiwn adolygu priodoldeb ei argymhellion ar gyfer newid yn y cyfarfod nesaf.

4. Adroddiad Cyllideb – Ail Chwarter 2003/04.

4.1 **Nodwyd** yr adroddiad.

5. Adolygiad o ran o'r Ffin rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

5.1 **Cytunwyd** i geisio cyfeiriadau gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus am y mater hwn.

6. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i Gymru: Pwerau ac Awdurdod

6.1 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiynwyr gyflwyno eu barnau i Ysgrifennydd y Comisiwn, a fydd yn coladu ac yn cyflwyno'r barnau hynny ar eu rhan

7. Addewid Cyflogwyr am Sgiliau Sylfaenol.

7.1 **Cytunwyd** i fabwysiadu a chefnogi safle'r Cynulliad ar y mater hwn

8. Unrhyw Faterion Eraill.

8.1 Cyfarfod â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

8.1.1 Adroddodd y Cadeirydd bod cyfarfod y Comisiynwyr â'r Gweinidog wedi bod yn hynod ddefnyddiol, gan egluro'r safle presennol ar adroddiadau a gyflwynwyd gan y Comisiwn, a'r papur ymgynghori cyfredol a gyhoeddwyd yn ddiweddar am swyddogaethau a gwella Cynghorau Tref a Chymuned.

8.2 Cyfarfod Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gyda Phrif Weinidog Cymru

8.2.1 Adroddodd y Cadeirydd am y prif bynciau o ddiddordeb i'r Comisiwn a godwyd yn y cyfarfod, gan gynnwys cyfrifoldebau ariannol, yr Agenda Strategol "Cymru: Gwlad Well" a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r Fenter Caffael Lleol.

8.3 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Comisiwn 2004

8.3.1 **Nodwyd** bod y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno y byddai'r Comisiwn yn ei gwahodd i siarad yn y cyfarfod, fel y byddai'r dyddiad sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael ei nodi yn ei dyddiadur.

8.3.2 **Cytunwyd** y bydd Cyfarfod Blynyddol 2004 yn cael ei gynnal ar fore dydd Iau 7 Hydref 2004 ac yn digwydd yng Ngwesty'r Parc Treftadaeth, Trehafod yn y Rhondda. **Cytunwyd** y bydd lluniaeth, gan gynnwys bwffe, yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod. Ceisir siaradwyr gwadd, yn ogystal â'r Gweinidog, yn agosach at adeg y cyfarfod.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

9.1 **Cytunwyd** y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 22 Ionawr 2004.